# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## (O BELL TRWY TEAMS)

<u>**Aelodau'n bresennol:**</u> <u>**Dydd Mawrth, 28 Gorffennaf 2020**</u>

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod S.Pursey** |
| **Cynghorydd**: | D.Keogh, R.Mizen, R.Davies, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, S.Renkes a/ac M.Protheroe |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Morris, S.Ball, R.MacGregor, J.Griffiths, H.Bowen, S.Blewett, C.Plowman a/ac T.Davies |

---

1. **<u>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</u>**

Gwnaeth yr Aelod canlynol ddatganiad personol o fuddiant:

Y Cynghorydd S K Hunt, Cais Rhif P2020/0362 – Nant Helen a'r tir o'i hamgylch, gan ei fod wedi eistedd ar Bwyllgor Cyswllt safle Nant Helen.

2. **<u>GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD</u>**

**PENDERFYNWYD:** Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

3. **<u>TAFLEN DDIWYGIADAU</u>**

Sylwer: Dosbarthwyd taflen ddiwygiadau mewn perthynas â'r rhifau cais: Dosbarthwyd P2020/0362 a P2020/0486 cyn y cyfarfod, yr oedd y Cadeirydd wedi caniatáu digon o amser i'r Aelodau ei darllen, mewn perthynas â'r eitemau cais ar yr agenda gyhoeddedig. Roedd y Cadeirydd wedi caniatáu iddi gael ei dosbarthu/hystyried ar frys yn y cyfarfod heddiw, am y rheswm a'r amgylchiadau penodol nad oedd yn dymuno gohirio unrhyw geisiadau ac er mwyn sicrhau bod

Aelodau yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol ychwanegol cyn dod i unrhyw benderfyniad yn y cyfarfod.

4. **CAIS RHIF. P2020/0362 - NANT HELEN A'R TIR AMGYLCHYNOL**

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Gwaith cloddio adferol ategol i greu 2 lwyfan tirffurf dolennog (rhan ohono mewn cloddiad a rhan ohono ar lethr) gydag isadeiledd draenio cysylltiedig ac ardaloedd wedi'u tirlunio a chreu cynefinoedd i greu ardal o dir hyblyg ac addasadwy y gellid ei ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau gan gynnwys amaethyddiaeth, cadwraeth natur, hamdden, twristiaeth a defnydd diwydiannol, ymchwil a datblygu/busnes (o bosib yn cynnwys cyfleuster profi rheilffordd, ymchwil a datblygu a storio arfaethedig). (Cais traws-ffiniol - gweler cyfeirnod cais Cyngor Sir Powys sef 20/0738/FUL) ar dir ar safle glo brig Nant Helen, Powys, ac o'i gwmpas, a chanolfan ddosbarthu Onllwyn, Castell-nedd Port Talbot) fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Yn unol â'r Protocol Siarad Cyhoeddus a gymeradwywyd gan y cyngor, anerchodd yr asiant y Pwyllgor Cynllunio.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2020/0362, yn unol ag argymhellion swyddogion, gan ystyried y sylwadau ar y daflen ddiwygiadau, ac yn amodol ar yr amodau (gan gynnwys amod Grampian) y manylir arnynt yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

5. **CAIS RHIF. P2020/0486 – CANOL TREF CASTELL-NEDD**

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (canolfan hamdden, yn cynnwys pwll nofio, ystafell iechyd a champfa gyda chaffi ategol, 6 uned fasnachol (defnydd A1 a D1) a llyfrgell gyhoeddus ar y llawr cyntaf. Ynghyd â'r iard wasanaethu, y tir cyhoeddus a'r gwelliannau tirlunio cysylltiedig ar dir yn Stryd y Dŵr, Castell-nedd) fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2020/0486, yn unol ag argymhellion swyddogion, gan ystyried y sylwadau ar y daflen ddiwygiadau, ac yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

6. **CAIS RHIF. P2020/0538 - CANOLFAN TECHNIUM**

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (adeiladu canolfan dechnoleg, parcio, tirlunio a gwaith cysylltiedig ar dir gerllaw Canolfan Technium, Central Avenue, Parc Ynni Bae Baglan, SA12 7AX) fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2020/0538, yn unol ag argymhellion swyddogion, yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**CADEIRYDD**